Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

12. Newid hinsawdd

12.1 Cyflwyno newid hinsawdd

Bydd cael dealltwriaeth o'r newid yn yr hinsawdd yn ei gwneud yn haws i chi ystyried yr effeithiau posibl, rheoli eich risgiau o ran yr hinsawdd a gwneud penderfyniadau gwell er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae *hinsawdd* yn cyfeirio at y tywydd cyfartalog a geir dros gyfnod hir. Mae hinsawdd y Ddaear wedi newid nifer o weithiau mewn ymateb i achosion naturiol – fel arfer mae'r term newid hinsawdd yn cyfeirio at gynhesu byd-eang sydd wedi digwydd ers canol y 19^{eg} ganrif.

Mae ffactorau naturiol a ffactorau dynol yn effeithio ar yr hinsawdd fyd-eang. Mae achosion naturiol yn cynnwys rhyngweithiadau rhwng y cefnfor a'r atmosffer, newidiadau yng nghylchdro'r Ddaear ac echdoriadau folcanig. Mae pobl yn effeithio ar yr hinsawdd fyd-eang drwy weithgareddau – yn enwedig diwydiant ac amaethyddiaeth – sy'n rhyddhau nwyon tŷ gwydr – fel carbon deuocsid a methan – i'r atmosffer.

Mae'r nwyon hyn yn amsugno ynni a gaiff ei belydru o wyneb y ddaear, gan gynhesu'r atmosffer a chynyddu tymereddau ledled y byd.

Yn 2007, daeth y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd, corff mwyaf awdurdodol y byd ar newid hinsawdd, i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r cynnydd a welwyd yn nhymereddau cyfartalog y byd ers canol yr 20fed ganrif yn debygol iawn o fod wedi digwydd o ganlyniad i'r cynnydd a welwyd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a grëir gan ddyn.

Beth yw allyriadau nwyon tŷ gwydr ac allyriadau carbon?

Gelwir rhai o'r nwyon sy'n ffurfio atmosffer y ddaear yn nwyon tŷgwydr. Maent yn dal gwres ac yn cadw'r ddaear yn gynnes, fel y mae'r gwydr mewn tŷ gwydr yn ei wneud. Heb unrhyw nwyon tŷgwydr byddai'r ddaear yn rhy oer i fyw arni. Ond wrth i weithgarwch dynol allyrru nwyon tŷ gwydr ychwanegol i'r atmosffer, er enghraifft drwy injans ceir a gwresogi tai, mae'r nwyon tŷgwydr yn yr atmosffer yn cynyddu. Felly, caiff mwy o wres ei ddal ac mae tymheredd cyfartalog y byd yn cynyddu.

Mae'r rhan fwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi'u creu o'r nwy carbon deuocsid (CO_2), felly yn aml siaradwn am *garbon deuocsid* neu *CO_2* fel ffordd gyflym i olygu allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn aml, cyfeiriwn hefyd ddim ond at *allyriadau carbon*. Pan fyddwn yn sôn am leihau allyriadau carbon a ddaw o weithgarwch gan unigolyn neu fudiad, siaradwn am *leihau ein hôl-troed carbon*.

Sut mae hinsawdd y DU yn newid a pham ei bod yn broblem?

Mae tymereddau cyfartalog y byd wedi cynyddu 0.7°C ers 1900 (http://ncar.ucar.edu/learn-more-about/climate). Mae Tymheredd Canolog Lloegr, sydd wedi cael ei fesur ers 1659, yn dangos cynnydd o tua 1°C ers 1980, ar ôl cyfnod cymharol sefydlog am y rhan fwyaf o'r 20fed ganrif. Wrth i dymereddau byd-eang barhau i godi, rydym yn debygol o brofi mwy o dywydd eithafol fel poethdonnau a stormydd. Bydd lefelau'r môr hefyd yn codi. Bydd y newidiadau hyn yn amharu ar gynefinoedd naturiol a chymunedol dynol, megis llifogydd a sychder mewn ardaloedd yn aml. Efallai y bydd cymunedau yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r newidiadau a bydd angen eu cefnogi i addasu i hinsawdd sy'n newid.

Lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd

Mae *lliniaru* yn cyfeirio at gamau gweithredu sy'n lleihau ein cyfraniad at achosion newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn golygu lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr, fel carbon deuocsid (CO_2), drwy effeithlonrwydd ynni a defnyddio mathau eraill o deithio ac ynni.

Dim ond drwy leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr y gallwn isafu'r newid yn yr hinsawdd a grëir gan ddyn. Gall nifer o'r mesurau i helpu i leihau allyriadau gael manteision eraill hefyd megis arbed arian ac annog cymdeithas fwy cynaliadwy.

Mae *addasu* yn rhan hanfodol o fynd i'r afael â'r effeithiau a'r cyfleoedd a grëir gan ein hinsawdd newidiol. Er gwaethaf ein hymdrechion i gyfyngu ar yr achosion dynol o newid yn yr hinsawdd, bydd rhywfaint o newid yn yr hinsawdd yn anochel. Felly, mae mesurau effeithiol i wella ein gallu i addasu (meithrin gallu addasol) ac i addasu i ganlyniadau newid yn yr hinsawdd (cyflenwi gweithredoedd addasu) yn hanfodol.

Mae cysylltiad agos rhwng yr ymateb i liniaru ac addasu ac yn aml gallant elwa o gael eu hystyried gyda'i gilydd.

Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae ei Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd a'r Cynlluniau Cyflenwi yn amlinellu ei hymrwymiad a disgrifio ble bydd yn gweithio gyda phartneriaid i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a galluogi ymaddasu effeithiol.

http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/strategy/?skip=1&lang=cy

Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r Comisiwn yn fforwm pwysig ar gyfer bwrw ymlaen â'n rhaglen weithredu i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Un o'r heriau wrth ymateb i newid yn yr hinsawdd yw'r angen i feithrin consensws eang. Mae hyn yn helpu i lywio a chyflawni camau gweithredu trwy'r sector cyhoeddus, busnesau a mudiadau'r sector gwirfoddol a thrwy unigolion a chymunedau yng Nghymru. Mae'r Comisiwn yn uno arweinwyr a chynrychiolwyr o bob rhan o Gymru, o fyd busnes, o fyd addysg, amaethyddiaeth, y sector gwirfoddol, grwpiau amgylcheddol, pleidiau gwleidyddol a llywodraeth leol.

www.cynnalcymru.com/cymraeg/ccnh-amdanom-ni

Ffynonellau o wybodaeth bellach

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am addasu i'r newid yn yr hinsawdd gan **Raglen Effeithiau Hinsawdd y DU** yn www.ukcip.org.uk

Yn y llyfryn hwn, cewch wybod mwy am sut y bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru a'r hyn y bydd angen inni ei wneud i ymaddasu.

http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/adaptationplan/?skip=1&lang=cy

ADOLYGIAD STERN: Economeg y Newid Hinsawdd
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130129110402/http://www.hm-treasury.gov.uk/d/Executive_Summary.pdf

Beth nesaf?

Bydd gweddill y Taflenni Gwybodaeth yn adran 12 yn eich galluogi i gael gwybod pam fod y newid yn yr hinsawdd yn bwysig i chi a beth allwch wneud ynglŷn â'r peth.

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7LR
Elusen Gofrestredig: *1088828*

Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org
Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:01/08/2014

Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.cymru